



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Gwasanaeth Coffa  
Cenedlaethol Cymru**  
**The National Service of  
Remembrance for Wales**

**Dydd Sul 8 Tachwedd 2020**  
**Sunday 8 November 2020**

**Trefn y Ddefod ger y Gofeb Ryfel Genedlaethol**  
**Order of the Ceremonial at the National War Memorial**




Croeso i Wasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru, a drefnir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd mewn partneriaeth â'r Llang Brydeinig Frenhinol. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn foment bwysig yn hanes ein cenedl; mae'n gyfle i oedi, talu teyrnged a chofio'r rhai a wnaeth yr aberth eithaf yn y ddau ryfel byd ac yn y rhyfeloedd eraill wedi hynny. Rydym hefyd yn anrhydeddu'r dynion a'r menywod yn ein lluoedd arfog sy'n parhau i chwarae eu rhan drwy wasanaethu a chyflawni dyletswyddau cadw heddwch dros y byd.

Eleni, rydym yn nodi'r achlysur hwn mewn ffordd wahanol, i adlewyrchu'r cyfyngiadau a gyflwynwyd oherwydd y pandemig presennol. Bydd llawer ohonoch yn gwylio'r gwasanaeth ar-lein ac yn talu eich teyrngedau unigol o ddiogelwch eich cartrefi.

Yn ddiweddar, fe nodon ni 75 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae Sul y Cofio mor berthnasol a mor deimladwy ag erioed, ac mae Lluoedd Arfog Cymru'n dal i chwarae eu rhan, nid yn unig drwy eu dyletswyddau milwrol ond hefyd wrth ymateb i heriau COVID-19 a chefnogi'r GIG drwy adeiladu'r ysbytai Enfys a dosbarthu cyfarpar meddygol hollbwysig.

Dewch inni feddwl amdanynt a gweddi'o drostynt, eu teuluoedd a'u ffrindiau, yn y cyfnod hwn, tra'n anrhydeddu'r holl rai a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd ddoe a heddiw. Yng ngeiriau Laurence Binyon, o'i gerdd 'For the Fallen':

## "Ni â'u cofiwn hwy"



Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford  
Prif Weinidog Cymru



Y Cyngorydd Huw Thomas  
Arweinydd Cyngor Caerdydd



Welcome to our Welsh National Service of Remembrance which is organised by the Welsh Government and Cardiff Council in partnership with the Royal British Legion.

The annual event is a significant time in our nation's history, when we pause to honour the memory of those who paid the ultimate sacrifice in two world wars and other conflicts that followed. We also pay tribute to our serving men and women who continue to play their part in active service and peace keeping duties around the world.


This year we are commemorating the occasion differently, reflecting the restrictions in place as a result of the ongoing pandemic. Many of you will be watching the service online and paying tribute virtually from the safety of your homes.

As we recently marked the 75th anniversary of the end of the Second World War, Remembrance Sunday remains as relevant and poignant today as ever, with Welsh service men and women continuing to play their part, not only in military duties but in responding to the challenges of COVID-19, by supporting our NHS in building Enfys hospitals and distributing vital medical equipment.

Our thoughts and prayers are with them, their families and friends, at this time, whilst honouring all those who have lost their lives in conflicts past and present.

In the words of Laurence Binyon, from his poem 'For the Fallen':

## **"We will remember them"**



Rt. Hon. Mark Drakeford  
First Minister of Wales



Councillor Huw Thomas  
Leader of Cardiff Council



**Dechreuir y gwasanaeth am  
10.58yb.**

**Arweinir y gwasanaeth gan y  
Parchedig Ganon Stewart Lisk,  
Caplan Anrhydeddus Cyngor  
Caerdydd.**

Deuwn ynghyd ym mhresenoldeb Duw.

Ymgylwynwn ein hunain  
i weithio mewn edifeirwch a ffydd  
dros gymod rhwng y cenedloedd,  
er mwyn i'r holl bobloedd, gyda'u gilydd,  
fyw mewn rhyddid, cyfiawnder  
a heddwch.

Gweddiwn dros bawb  
mewn galar, anabledd a phoen, sy'n  
parhau i ddioddef o ganlyniad i ryfel  
a thrais.

Cofiwn gyda diolchgarwch a thristwch  
y rheiny a'u bywydau, yn rhyfeloedd byd  
a gwrthdaro'r gorffennol a'r presennol,  
a roddwyd ac a gymerwyd.

**The service will commence at  
10.58am.**

**Service conducted by the  
Reverend Canon Stewart Lisk,  
Honorary Chaplain to Cardiff  
Council.**

We meet in the presence of God.

We commit ourselves  
to work in penitence and faith  
for reconciliation between the nations,  
that all people may, together,  
live in freedom, justice and peace.

We pray for all  
who in bereavement, disability and pain  
continue to suffer the consequences of  
fighting and terror.

We remember with thanksgiving and  
sorrow those whose lives, in world wars  
and conflicts past and present, have  
been given and taken away.



**Dywed Anthony Metcalfe,  
Rheolwr Ardal Cymru,  
Y Lleng Brydeinig Frenhinol:**

Ni heneiddiant hwy,  
Fel ni, a adawyd;  
Ni ddwg oed iddynt ludded,  
Na'r blynyddoedd gollfarn mwy.  
Pan elo'r haul i lawr  
Ac ar wawr y bore,  
Ni â'u cofiwn hwy.

**Pawb yn cadarnhau:  
Ni â'u cofiwn hwy**

**Y Caniad Olaf**

**Bydd y Distawrwydd yn dilyn**

**Reveille**

**Gosodir torchau ar ran:**

Ei Mawrhydi'r Frenhines  
Y Lleng Brydeinig Frenhinol  
Y Lluoedd Arfog  
Cymdeithas y Llynges Fasnachol  
Gwasanaethau Sifiliaid mewn Lifrai  
Llywodraeth y DU  
Llywodraeth Cymru  
Cyngor Caerdydd  
Senedd Cymru  
Dinasyddion Caerdydd  
Y Gymdeithas Gonsylaidd yng Nghymru  
Cymdeithas Frenhinol y Gymanwlad  
yng Nghymru

**Anthony Metcalfe,  
Area Manager Wales,  
The Royal British Legion says:**

They shall grow not old,  
As we that are left grow old;  
Age shall not weary them,  
Nor the years condemn.  
At the going down of the sun  
And in the morning,  
We will remember them.

**All affirm:  
We will remember them**

**The Last Post**

**The Silence will follow**

**Reveille**

**Wreaths will be laid on behalf of:**

Her Majesty the Queen  
The Royal British Legion  
The Armed Forces  
The Merchant Navy Association  
Uniformed Civilian Services  
UK Government  
Welsh Government  
Cardiff Council  
The Welsh Parliament  
The Citizens of Cardiff  
The Consular Association of Wales  
Royal Commonwealth Society  
of Wales



## **Ar ôl gosod y torchau, bydd gweddi:**

Byth-fywïol Dduw cofiwn am y rheiny yr wyt wedi eu crynhoi o stormydd rhyfel i mewn i heddwch dy bresenoldeb; bydded i'r heddwch hwnnw ddileu ein hofnau, dwyn cyfiawnder i'r holl bobloedd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen**

## **Micha 4:3-5, darllennir gan Helen Jones, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru (yn y ddwy iaith):**

Bydd ef yn barnu rhwng cenedloedd, ac yn torri'r ddadl i bobloedd cryfion o bell; byddant hwy'n curo'u cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau.

Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach; a bydd pob un yn eistedd dan ei winwydden a than ei ffigysbren, heb neb i'w ddychryn. Oherwydd genau Arglwydd y Lluoedd a lefarodd.

Rhodia pob un o'r cenedloedd yn enw eu duw, ac fe rodiwn ninnau yn enw'r Arglwydd ein Duw hyd byth.

## **Following the laying of wreaths, a prayer is said:**

Ever-living God we remember those whom you have gathered from the storm of war into the peace of your presence; may that same peace calm our fears, bring justice to all peoples and establish harmony among the nations, through Jesus Christ our Lord.

**Amen**

## **Micah 4:3-5, read by Helen Jones, The Free Church Council of Wales (in both languages):**

And he shall judge among many people, and rebuke strong nations afar off; and they shall beat their swords into plowshares, and their spears into pruninghooks: nation shall not lift up a sword against nation, neither shall they learn war any more.

But they shall sit every man under his vine and under his fig tree; and none shall make them afraid: for the mouth of the Lord of Hosts hath spoken it.

For all people will walk every one in the name of his god, and we will walk in the name of the Lord our God for ever and ever.



## **Dywedir yr isod gan y Parchedig Ganon Stewart Lisk:**

Gweddiwn dros bawb sy'n dioddef o ganlyniad i ryfel, gan ofyn i Dduw roi heddwch i'w bobl.

Cofiw'n am bob aelod o'r gwasanaethau milwrol a fu farw ynghanol terfysg rhyfel: pob un ohonynt yn wybyddus i Dduw. Dygwn i gof bobl o bob Ffydd, a heb Ffydd, a roddodd eu bywydau mewn dau ryfel byd, a brwydrau dilynol.

Gweddiwn y bydd i'w teuluoedd a'u hanwyliaid, sy'n galaru a hiraethu, brofi heddwch yn eu bywydau.

Cofiw'n hefyd am blant ac oedolion o'r boblogaeth sifil sydd â'u bywydau wedi eu dryllio gan ryfel a therfysgaeth; yn enwedig y rheini sydd wedi eu dadleoli, a'r ffoaduriaid.

Gweddiwn dros y rhai ym mhob cenedl sy'n ymdrechu i greu a chynnal heddwch fel y gall pobloedd y byd fyw mewn llonyddwch a chyd-ddealltwriaeth.

Gofynnwn ar i arweinwyr y cenedloedd, a phawb sy'n dwyn baich a braint awdurdod, ei arfer yn ddoeth a gweithio tuag at gymod a heddwch.

Gweddiwn dros aelodau'r Lluoedd Arfog sydd mewn perygl y dydd hwn, ar iddynt gyflawni eu dyletswyddau a dychwelyd yn ddiogel i'w cartrefi. Cofiw'n yn ddiolchgar am yr ymrwymiad anhunanol a ddangoswyd ganddynt wrth ymdrechu i ymladd pandemig y coronafeirws.

## **The following is said by the Reverend Canon Stewart Lisk:**

Let us pray for all who suffer as a result of conflict and ask that God may give us peace.

We remember all servicemen and women who have died in the violence of war, each one known by God. We recall people of all Faiths and of none, who gave their lives in two world wars and many battles since.

We pray that their families and loved ones who continue to know grief and loss may have peace in their lives.

We remember too all civilian children, women and men whose lives are disfigured by war and terror, especially displaced persons and refugees.

We pray for those who strive to bring and maintain peace in every nation that the people of the world may live in tranquility and understanding.

We ask that the leaders of nations and all who bear the burden and privilege of power may use it with wisdom working towards reconciliation and peace.

We pray for all members of the Armed Forces who are in danger this day, that they may fulfil their duties and have a safe return to their homes. We recall with thanksgiving the selfless commitment they have made in our efforts to combat the coronavirus pandemic.

## Dewch i ni i gyd ddweud Gweddi'r Arglwydd yn eich iaith ddewisol:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw.

Deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys,  
megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
a maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau  
i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth,  
eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas, y nerth  
a'r gogoniant.

Yn oes oesoedd. **Amen**

## Let us all say the Lord's Prayer in the language of your choice:

Our Father, who art in heaven,  
hallowed be thy name.

Thy Kingdom come;  
thy will be done on earth  
as it is in heaven.

Give us this day our daily bread  
and forgive us our trespasses  
as we forgive those who trespass  
against us.

And lead us not into temptation  
but deliver us from evil.

For thine is the kingdom, the power,  
and the glory.

For ever and ever. **Amen**

## Beddargraff Kohima Darllenir yn Saesneg gan y Corporal Purna Chandra Limbu Peirianydd Gurkha'r Frenhines

Pan ddychwelwch gartref  
dywedwch hyn amdanom ni,  
mai er mwyn eich yfory chi  
rhoddasom ein heddiw.

## The Kohima Epitaph Read in English by Corporal Purna Chandra Limbu Queen's Gurkha Engineer

When you go home  
tell them of us and say,  
for your tomorrow  
we gave our today.





**Gwneir yr ymrwymiad ac ymateba'r gynulleidfa yn ei hiaith ddewisol:**

Ymgyflwynwn ein hunain i fyw yn gyfrifol a gwasanaeth ffyddlon.

A wnewch chwi ymdrechu dros bopeth sy'n arwain at heddwch?

**Gwnawn**

A wnewch chwi geisio iacháu clwyfau rhyfel?

**Gwnawn**

A wnewch chwi weithio dros ddyfodol teg i'r ddynoliaeth?

**Gwnawn**

Dduw trugarog, offrymwn i ti yr ofnau ynom ni nad ydynt wedi'u bwrw ymaith gan gariad:

Bydded i ni dderbyn y gobaith yr wyt wedi plannu yng nghalonau dy holl bobl,

A byw bywydau o gyfiawnder, gwroldeb a thrugaredd;

Trwy Iesu Grist ein Gwaredwr

Atgyfodedig.

**Amen**

**The act of commitment is made and the congregation responds in the language of their choice:**

Let us commit ourselves to responsible living and faithful service.

Will you strive for all that makes for peace?

**We will**

Will you seek to heal the wounds of war?

**We will**

Will you work for a just future for all humanity?

**We will**

Merciful God, we offer to you the fears in us that have not yet been cast out by love:

May we accept the hope you have placed in the hearts of all people,  
And live lives of justice, courage and mercy;

Through Jesus Christ our risen Redeemer.

**Amen**



## Rhoddir y fendith:

Dduw dyro i'r byw ras,  
i'r ymadawedig orffwys,  
i'r Eglwys, y Frenhines,  
y Gymanwlad  
ac i'r holl bobl,  
undod, heddwch a chytgord,  
ac i ni a holl weision Duw,  
fywyd tragwyddol.  
A bendith Duw Hollalluog,  
Y Tad y Mab a'r Ysbryd Glân a fyddo  
gyda chwi oll o'r awr hon hyd byth.

**Amen**

## The blessing is given:

God grant to the living grace,  
to the departed rest,  
to the Church, the Queen,  
the Commonwealth  
and all people,  
unity, peace and concord,  
and to us and all God's servants,  
life everlasting.  
And the blessing of God Almighty,  
Father, Son and Holy Spirit be with you  
all and remain with you always.

**Amen**

## YR ANTHEMAU CENEDLAETHOL

(Fersiwn offerynnol)

### HEN WLAD FY NHADAU

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,  
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri,  
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,  
Dros ryddid collasant eu gwaed.  
Gwlad, gwlad, pleidol wyf i'm gwlad.  
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,  
O bydded i'r hen iaith barhau.

## THE NATIONAL ANTHEMS

(Instrumental version)

### GOD SAVE THE QUEEN

God save our gracious Queen,  
Long live our noble Queen,  
God save the Queen,  
Send her victorious,  
Happy and glorious,  
Long to reign over us,  
God save the Queen.



**Trefnwyd y gwasanaeth hwn yn unol â rheoliadau COVID-19 Llywodraeth Cymru.**

[llyw.cymru/coronafeirws](https://llyw.cymru/coronafeirws)

**Hoffem ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yng Ngwasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru.**

**Diolch arbennig i Fand y Cymry Brenhinol am gymryd rhan yn y seremoni unwaith eto eleni.**

Cynhyrchwyd trefn y gwasanaeth hwn gan ddefnyddio deunydd a ddarparwyd gan y Llang Brydeinig Frenhinol ac Eglwysi Yngghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.

**This service has been organised in line with Welsh Government COVID-19 regulations.**

[gov.wales/coronavirus](https://gov.wales/coronavirus)

**Our appreciation is given to those who have participated in National Service of Remembrance for Wales.**

**Special thanks to the Band of The Royal Welsh for their participation in the ceremony again this year.**

This form of service has been produced using material supplied by The Royal British Legion and Churches Together in Britain and Ireland.

